Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3660A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gweithredu'n gyflym i ddechrau ymateb i'r argymhellion gwreiddiol yn ein hadroddiad yn 2021 ar yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio. Fodd bynnag, yn awr mae angen i'r Cyngor fireinio gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu ei Bwyllgor Rheoli Datblygu ymhellach fel eu bod yn cael eu deall, eu cymhwyso a'u gwreiddio'n llawn mewn ffordd sy'n dryloyw ac sy'n rhoi gwerth am arian i'r Cyngor cyfan.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Trosolwg o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'n hadolygiad gwreiddiol (Hydref 2021) o'r Gwasanaeth Cynllunio 6

Argymhellion 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2021 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Meini Prawf Archwilio

1 Amcan yr adolygiad hwn oedd asesu cynnydd y Cyngor yn erbyn y deg argymhelliad a wnaed yn ein hadroddiad ar Adolygiad Archwilio Cymru o'r Gwasanaeth Cynllunio yn 2021. Yr argymhellion yn ein hadroddiad gwreiddiol oedd y meini prawf ar gyfer yr adolygiad dilynol hwn.

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

2 Mae gwasanaethau cynllunio'r Cyngor yn alluogwyr strategol bwysig sy'n tanategu llawer o ddatblygiadau mawr a phwysig, gan gynnwys adeiladu ysgolion newydd, datblygu cartrefi gofal, datblygiadau tai a llety i dwristiaid. Gall y datblygiadau hyn helpu cynghorau i gyflawni eu hamcanion ac uchelgeisiau corfforaethol.

3 Mae gan Gyngor Sir Ceredigion (y Cyngor), fel Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), rôl hanfodol o ran adnabod anghenion datblygu; pa ardaloedd y mae angen eu gwarchod neu eu gwella; ac o ran asesu a yw datblygiad arfaethedig yn gyson â pholisïau lleol a chenedlaethol.

4 Fel rhan o'n Cynllun Archwilio ar gyfer Cyngor Ceredigion yn 2021-22, fe gynhaliom ni adolygiad o wasanaeth cynllunio'r Cyngor i ganfod a oedd y gwasanaeth yn cyflawni ei amcanion ac yn cyfrannu tuag at gyflawni'r blaenoriaethau yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor mewn modd effeithiol a chynaliadwy. Ym mis Hydref 2021, fe gyhoeddom ni ein canfyddiadau o'r adolygiad hwnnw[1] a daethom i'r casgliad, er bod aelodau'r Cyngor ac uwch swyddogion o'r farn bod y gwasanaeth cynllunio yn strategol allweddol, nad yw gwendidau hirsefydlog sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cefnogi'r Cyngor yn gynaliadwy nac yn gydlynol i wella perfformiad a chyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau strategol. Fe gyhoeddom ni ddeg argymhelliad yn yr adroddiad hwnnw yn 2021.

5 Fe gynhaliom ni'r adolygiad dilynol diweddarach hwn o'r gwasanaeth cynllunio rhwng mis Medi 2022 a mis Chwefror 2023. Fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau archwilio wrth gynnal yr adolygiad hwn gan gynnwys cyfweliadau, adolygiadau o ddogfennau ac arsylwi ar gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor.

6 Fe ganolbwyntiom ni ar gynnydd y Cyngor yn erbyn ein hargymhellion yn yr adroddiad ar y Gwasanaeth Cynllunio a gyhoeddwyd gennym yn 2021.

7 Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion pellach fel a nodir yn **Arddangosyn 2** isod. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud â'n hargymhellion gwreiddiol yn 2021, ond

[1] Archwilio Cymru, Cyngor Sir Ceredigion – Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio, Tachwedd 2021

mae eraill yn ymwneud â chanfyddiadau newydd fel rhan o'n hadolygiad dilynol i helpu'r Cyngor yn y dyfodol.

## Yr hyn a ganfuom

8 Fel a nodir yn **Atodiad 1** isod, canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor wedi gweithredu'n gyflym i ddechrau ymateb i'r argymhellion gwreiddiol yn ein hadroddiad yn 2021 ar yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio. Fodd bynnag, yn awr mae angen i'r Cyngor fireinio gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu ei Bwyllgor Rheoli Datblygu ymhellach fel eu bod yn cael eu deall, eu cymhwyso a'u gwreiddio'n llawn mewn ffordd sy'n dryloyw ac sy'n rhoi gwerth am arian i'r Cyngor cyfan.

9 Ceir rhagor o fanylion am ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â phob un o'n hargymhellion yn **Atodiad 1**.

10 Mae'r adroddiad manwl yn darparu trosolwg o'n canfyddiadau.

# Adroddiad manwl

## Trosolwg o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'n hadolygiad gwreiddiol (Hydref 2021) o'r Gwasanaeth Cynllunio

11 Rydym yn cydnabod bod maint y newidiadau a gwelliannau o safbwynt gweithredol, llywodraethu a diwylliannol y mae eu hangen i fynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog hanesyddol y Pwyllgor Rheoli Datblygu y gwnaethom adrodd arnynt yn ein hadroddiad yn 2021 yn golygu y bydd yn cymryd amser i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy a'u gwreiddio'n llawn.

12 Roedd ein hadroddiad ar y Gwasanaeth Cynllunio ym mis Hydref 2021 yn cynnwys deg argymhelliad i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy a'r rheiny'n amrywio o faterion a oedd yn ymwneud â llywodraethu i rai a oedd yn ymwneud â chynllunio a monitro'r gwasanaeth.

13 Aeth y Cyngor ati'n gyflym i gytuno ar drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu a bu'n cydweithio'n agos gyda'r Aelodau i wneud hyn.

14 Fe weithredodd y Cyngor yn gyflym i gymeradwyo, erbyn mis Mawrth 2022, nifer o newidiadau cyfansoddiadol i'r trefniadau sy'n ategu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Fe wnaeth y Cyngor:

- newid enw Saesneg y pwyllgor o Development Control i Development Management.
- lleihau nifer yr Aelodau ar y pwyllgor o 21 i 15.
- cymeradwyo cynllun dirprwyo newydd. Mae hyn yn sicrhau bod y pwyllgor yn ystyried yr holl geisiadau cynllunio mawr a strategol bwysig a cheisiadau cynllunio a gyflwynir gan y Cyngor, swyddogion cynllunio ac Aelodau Etholedig.
- datblygu cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- cyflwyno canllawiau ynghylch diogelu data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
- cymeradwyo Protocol Arfer Da mewn Cynllunio ar gyfer Aelodau.

15 Yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, fe newidiodd aelodaeth Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor wrth i Aelodau Etholedig a oedd newydd gael eu hethol ymuno â'r Pwyllgor.

16 Darparodd swyddogion amrywiaeth eang o hyfforddiant i gynorthwyo holl Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu newydd i ddeall diben y pwyllgor, eu rôl ar y pwyllgor a pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pwysig.

17 Mae rôl y Pwyllgor Rheoli Datblygu o ran cyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor yn dal i ddatblygu. Mae'n gadarnhaol gweld bod y Pwyllgor bellach yn ystyried ceisiadau mawr a strategol bwysig ac yn gwneud penderfyniadau er budd y cyhoedd ar geisiadau sensitif a chymhleth o bwysigrwydd strategol. Fodd bynnag, mae rhai mân geisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai sy'n ymdrin â

phryderon unigol nad ydynt yn cyd-fynd â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol yn dal i gael eu galw i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Gellir ymdrin â'r ceisiadau hyn dan awdurdod a ddirprwywyd i swyddogion ac maent yn mynd ag amser ac adnoddau'r Pwyllgor. Yn y dyfodol, dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar ei rôl strategol trwy fuddsoddi ei amser yn fwy ar y ceisiadau strategol bwysig y mae'n eu cael er mwyn cael effaith fwy arwyddocaol ac ehangach ar gymunedau lleol ac ar y Cyngor a'r sir.

18 Mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi gwneud gwelliant sylweddol o ran ymlynu wrth egwyddorion diogelu data a phrosesu gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. Anaml y mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu'n trafod gwybodaeth bersonol ymgeiswyr bellach.

19 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'i ôl-groniad o geisiadau cynllunio gyda chymorth ymgynghorwyr allanol. Fodd bynnag, er gwaethaf trefniant tebyg gydag ymgynghorwyr allanol mewn perthynas â'r ôl-groniad o achosion gorfodi, nid yw achosion gorfodi'n lleihau yn yr un ffordd, sy'n effeithio ar berfformiad y Cyngor. Mae diffyg cymorth arbenigol o hyd yn y Gwasanaeth Cynllunio i alluogi swyddogion gorfodi i symud ymlaen gydag achosion gorfodi. Nid yw'r Cyngor wedi cytuno ar ei gyfeiriad strategol ar gyfer gorfodi, ac mae gorfodi'n faes sy'n achos pryder cynyddol i staff ac Aelodau'r Cyngor.

20 Nid oes bwriad gan y Cyngor ar hyn o bryd i drefnu bod darllediadau byw o gyfarfodydd ei Bwyllgor Rheoli Datblygu ar gael yn electronig i'r cyhoedd yn dilyn y cyfarfodydd. Cyngor Ceredigion yw'r unig Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yng Nghymru nad yw'n gwneud hyn. Nid oes gan y Cyngor unrhyw fwriadau i recordio cyfarfodydd ei Bwyllgor Rheoli Datblygu a threfnu eu bod ar gael yn electronig ar ôl eu darlledu'n fyw nes bydd hi'n ofynnol iddo wneud hynny dan reoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn gyson ag arfer gorau ac egwyddor Nolan sy'n ymwneud â bod yn agored mewn bywyd cyhoeddus[2]. Mae hyn yn arwain at ddiffyg tryloywder a hygyrchedd ar y cyfan, yn enwedig i'r aelodau hynny o'r cyhoedd neu ymgeiswyr i'r gwasanaeth cynllunio sy'n dymuno arsylwi ar gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor ar adeg sy'n addas iddynt hwy.

21 Gallai'r Cyngor wneud mwy i ymlynu wrth arfer da a mabwysiadu arfer da gan ACLlau ledled Cymru. Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu ACLlau eraill. Hyd yma, mae wedi cysylltu â dau ACLl cyfagos ac mae cyfle iddynt ymgysylltu â rhagor yn y dyfodol. Yn dilyn adolygiad y Cyngor o ACLlau eraill a'i adroddiad i'r Cyngor wedi hynny ym mis Mawrth 2022 gyda rhestr helaeth o newidiadau, fe benderfynodd y Cyngor gadw ei Banel Archwilio Safleoedd sy'n cynnwys dim ond traean o aelodau'r Pwyllgor ac fe gyflwynodd grŵp Callio gyda dim ond 50% o aelodau'r Pwyllgor. Nid yw ACLlau eraill wedi cyflwyno'r trefniadau hyn sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o heriau cyfreithiol mewn perthynas â rhagderfynu penderfyniadau cynllunio a'r risg i Aelodau a swyddogion o ganlyniad i hynny, a chan eu bod yn cynnwys nifer

[2] gov.uk: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

cyfyngedig o Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r Cyngor ddysgu mwy oddi wrth ACLlau eraill yn y dyfodol.

22 Ynghyd â pharhau â'r cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn ein hadroddiad gwreiddiol ar y Gwasanaeth Cynllunio yn 2021, ceir tri mater ychwanegol allweddol y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy dros yr ychydig fisoedd nesaf i'w helpu i symud yn bellach ymlaen ar ei daith tuag at welliant trwy newid diwylliannol.

- i. cryfhau'r trefniadau ar gyfer galw ceisiadau cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu gan Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol a'r rhesymau ac ystyriaethau cynllunio perthnasol ar gyfer gwneud hynny;
- ii. mynychder, tryloywder, effeithlonrwydd ac aelodaeth Paneli Archwilio Safleoedd; a
- iii. y ffordd y mae'r Grŵp Callio'n gweithredu.

23 Bydd cryfhau'r tri maes allweddol yma'n helpu'r Cyngor i ddiogelu Aelodau a swyddogion yn well wrth wneud penderfyniadau ac yn gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, allbynnau economaidd a chynaliadwyedd trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a'i effaith ehangach ar y Cyngor a'r Sir yn ei chyfanrwydd.

24 I helpu'r Cyngor, rydym wedi crynhoi isod ein canfyddiadau mewn perthynas â phob un o'r tri maes allweddol newydd ar gyfer gwella.

## i) Rhesymau dros alw ceisiadau cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

*25* Fel yn ein hadroddiad blaenorol, nid yw'r holl resymau a ddarparwyd gan Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol y Cyngor dros alw ceisiadau cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu'n ystyriaethau cynllunio perthnasol. Ceir canllawiau o fewn Cynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor sy'n amlinellu sut y gellir ychwanegu cais at un o agendâu'r pwyllgor. Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol bod ymgynghori'n digwydd rhwng y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer yr Economi ac Adfywio a'r Aelod sy'n cynrychioli'r Ward Leol i gefnogi penderfyniad i gyflwyno cais cynllunio i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae hyn yn golygu y dibynnir ar un swyddog yn unig i benderfynu a yw'r rhesymau'n cyrraedd y safon ofynnol. Pe bai anghytundeb, gallai hyn effeithio ar berthnasoedd gweithio a chreu risg i barhad busnes y gwasanaeth pe bai'r swyddog yn sâl neu'n absennol.

*26* I fynd i'r afael â'r mater hwn lle dibynnir ar un swyddog yn unig, mae cyfleoedd i'r Cyngor wella mesurau diogelu ymhellach i sicrhau bod Aelodau a swyddogion yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn fwy wrth alw ceisiadau i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Ar hyn o bryd, gall ymgeiswyr cynllunio ofyn dro ar ôl tro i Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol alw cais i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, hyd yn oed os nad oes rhesymau cynllunio perthnasol cryf dros alw'r cais i mewn, yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor. Mae hyn yn creu sefyllfa anodd i Aelod sy'n cynrychioli ward leol ac yn creu amgylchedd lle gall pwysau allanol fodoli. Byddai sicrhau bod yr holl resymau dros alw cais i mewn i'r Pwyllgor yn rhesymau cynllunio perthnasol, a gorfodi hynny, yn diogelu ac yn amddiffyn Aelodau a swyddogion wrth iddynt

wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â pha geisiadau ddylai ac na ddylai gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Byddai hefyd yn sicrhau cysondeb â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

27 I fynd i'r afael â'r risgiau a materion uchod ac i asesu pa geisiadau sy'n addas ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn unol â meini prawf perthnasol, gallai'r Cyngor sefydlu grŵp bach o swyddogion sy'n ystyried rhesymau Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol dros alw i mewn ac yn penderfynu a yw'r rhesymau a gynigir yn ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn. Er nad oes un ffordd benodol o gyflawni hyn, gallai fod yn gymysgedd o swyddogion sydd â gorchwyl i gynnal trefniadau llywodraethu a pholisi cynllunio, er enghraifft y Prif Swyddog, y Pennaeth Polisi Cynllunio, a swyddog o dîm cyfreithiol y Cyngor. Byddai'r trefniant hwn yn helpu i ganolbwyntio amser y Pwyllgor ar ystyried y ceisiadau mwy cymhleth a strategol bwysig, yn hytrach na mân geisiadau. Byddai effaith gwneud newidiadau o'r fath yn helpu i ddiogelu swyddogion ac Aelodau yn well, yn canolbwyntio sylw'r Pwyllgor ar y ceisiadau hynny sy'n fwy cyson â rôl a diben y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac yn cyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor.

## ii) Paneli Archwilio Safleoedd

28 Mae Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor yn gynyddol yn cyfeirio mân geisiadau cynllunio at Banel Archwilio Safle. Nid yw hyn wastad yn ddefnydd darbodus ac effeithlon o adnoddau. Er bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer Panel Archwilio Safleoedd wedi bod ar waith am beth amser, mae'r Pwyllgor wedi bod yn defnyddio Paneli Archwilio Safleoedd yn fwy mynych ers ein hadroddiad ar Wasanaethau Cynllunio ym mis Hydref 2021. Mae canllawiau cyfredol y Cyngor ynghylch Paneli Archwilio Safleoedd yn rhoi enghreifftiau penodol o achlysuron pan ddylid defnyddio Panel Archwilio Safle ac yn cydnabod bod defnyddio Paneli Archwilio Safleoedd yn gallu achosi oedi yn y broses gynllunio.

29 Mae Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru yn datgan mai 'Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, lle disgwylir y bydd y budd yn sylweddol, y dylid trefnu ymweliadau safle. Lle bo angen dylid eu nodi cyn cyfarfod y pwyllgor y mae'r cais i fod i gael ei drafod ynddo a dylai'r ymweliad safle ddigwydd ddim mwy nag wythnos ymlaen llaw[3].' Mae hyn yn sicrhau cyn lleied â phosibl o oedi wrth benderfynu ar gais cynllunio.

30 Os nad yw'r Pwyllgor yn cael safbwyntiau gweledol o adroddiad y swyddog, sy'n arwain at fwy o Baneli Archwilio Safleoedd, gall y Cyngor archwilio ffyrdd eraill o ymdrin â hyn, megis mwy o ffotograffau o'r safle, fideo o'r safle a gweithgarwch arall tebyg, a ddefnyddiodd yn ystod ton gyntaf y pandemig. Nid yw Paneli Archwilio Safleoedd rheolaidd ar gyfer mân geisiadau'n ddefnydd effeithlon o amser aelodau'r Pwyllgor na swyddogion proffesiynol ac adnoddau'r Cyngor ar adeg pan fo'r gwasanaeth cynllunio a gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor

[3] Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Rheoli Datblygu

eisoes dan bwysau sylweddol o safbwynt ariannol a’r gweithlu oherwydd pwysau cenedlaethol a byd-eang ehangach. Gall hefyd achosi oedi yn y broses gynllunio.

31 Ar hyn o bryd, dim ond pum Aelod o Bwyllgor Rheoli Datblygu’r Cyngor sy’n cael gwahoddiad i Banel Archwilio Safle. Nid yw’r trefniant hwn yn rhoi mynediad cyfartal i holl Aelodau’r Pwyllgor at wybodaeth. Dylai pob aelod o’r Pwyllgor gael cyfle cyfartal i ymweld â safle cais a’i asesu a ffurfio’u barn eu hunain yn seiliedig ar wybodaeth uniongyrchol i sicrhau proses benderfynu dryloyw a gwybodus.

32 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn dilyn Panel Archwilio Safle, mae’r pum aelod o’r Panel Archwilio Safle yn annerch y Pwyllgor gan roi eu barn ynglŷn â’r safle cyn bod y Pwyllgor yn trafod y cais. Ar hyn o bryd mae’r grŵp hwn o bum Aelod o’r Pwyllgor yn cyflwyno argymhellion i’r Pwyllgor Rheoli Datblygu ynghylch eu harsylwadau ar y safle a rhinweddau’r cais. Nid yw’r arfer hwn yn gyson â chanllawiau’r Cyngor ynghylch Paneli Archwilio Safleoedd a’i Brotocol Arfer Da mewn Cynllunio ar gyfer Aelodau. Mae canllawiau’r Cyngor ei hun yn datgan yn glir bod Paneli Archwilio Safleoedd ‘ddim yn fforwm i drafod y cais’ ac mae Protocol y Cyngor ei hun yn datgan bod rhaid i Aelodau ‘sicrhau eich bod yn trin yr ymweliad â’r safle dim ond fel cyfle i geisio gwybodaeth’ ac yn ‘peidio â mynegi barn na safbwyntiau ynglŷn â’r cynnig wrth unrhyw un’. Yn ymarferol, ar hyn o bryd mae Aelodau’r Panel Archwilio Safle yn trafod rhinweddau cais fel a ddangosir gan dystiolaeth yn yr adroddiadau i’r Pwyllgor. Mae’r adroddiadau’n cynnwys yr argymhelliad gan Aelodau’r Panel Archwilio Safle pa un a ddylid cymeradwyo ynteu gwrthod y cais cynllunio. Mae caniatáu i aelodau’r Pwyllgor drafod rhinweddau unrhyw gais, y tu allan i’r trefniadau ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, yn achosi risg bod yr Aelodau hynny’n rhagderfynu’r cais cynllunio ac yn wynebu canlyniadau cyfreithiol posibl o ganlyniad.

## iii) Grŵp Callio

33 Ym mis Mawrth 2022, fel rhan o’i adolygiad o drefniadau llywodraethu’r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fe gymeradwyodd y Cyngor gynnig i sefydlu Grŵp Callio.

34 Yn nodweddiadol, mae cyfeirio ceisiadau ar gyfer ‘cyfnod callio’ yn unol â Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru. Mae cyfnod callio’n galluogi ACLlau i adolygu’r risgiau sy’n gysylltiedig â phenderfyniad sy’n mynd yn groes i bolisïau cynllunio ac i swyddogion ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gyfer Aelodau.

35 Y gwahaniaeth yng Nghyngor Ceredigion yw ei fod wedi cyfansoddi Grŵp Callio penodol y mae 7 o’r 15 Aelod o’r Pwyllgor Rheoli Datblygu’n eistedd arno ac sy’n gytbwys yn wleidyddol.

36 Rydym yn deall bod y Cyngor wedi bwriadu i’r Grŵp Callio weithredu fel fforwm addysgol a dysgu ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Y bwriad oedd y byddai’r grŵp yma’n darparu cyfle ar gyfer oedi a myfyrio gydag Aelodau’r Pwyllgor yn gwirio synnwyr ac yn dysgu ymhellach am y polisïau cynllunio cysylltiedig ac effeithiau mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad posibl.

37 Yr hyn a ganfuom ni oedd bod y Grŵp Callio'n trafod ceisiadau cynllunio unigol. Byddai cynnal y Grŵp Callio fel fforwm addysgiadol yn helpu i ddiogelu Aelodau a swyddogion rhag unrhyw risgiau o ragderfynu canfyddedig neu wirioneddol ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol a chamau cyfreithiol. Fel a gadarnheir yng nghyfansoddiad y Cyngor, mae rhagderfynu'n achosi risg y gallai penderfyniad cynllunio gan y Cyngor gael ei herio'n gyfreithiol.

38 Mae adran 10a yn y 'Protocol o Arfer Da mewn Cynllunio ar gyfer Aelodau' sydd gan y Cyngor yn cyfarwyddo bod rhaid i Aelodau ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu â meddwl agored a dangos bod ganddynt feddwl agored. Hefyd, yn unol ag awdurdod dirprwyedig y Cyngor ac i sicrhau arfer gorau, dylai trafodaethau am geisiadau penodol a alwyd i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ddigwydd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

39 Bydd ailbwrpasu'r ffordd y mae'r Grŵp Callio'n gweithio'n ymarferol i fod yn fforwm addysgol yn unig, fel a fwriadwyd, yn helpu i ddiogelu swyddogion ac Aelodau a lliniaru risgiau mewn perthynas â rhagderfynu a diffyg tryloywder. Gan hynny dylai'r Cyngor

a. sicrhau nad yw'r Grŵp Callio'n trafod manylion unrhyw geisiadau cynllunio unigol;

b. sicrhau nad yw'r Grŵp Callio'n cyflwyno unrhyw argymhellion yn ôl i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu llawn ynghylch cymeradwyo neu wrthod ceisiadau cynllunio; ac

c. sicrhau bod y Grŵp Callio'n cynnwys holl Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eu bod i gyd yn cael budd o'r gwersi ehangach ac yn cael yr un wybodaeth mewn perthynas â pholisïau cynllunio.

40 I gefnogi'r materion uchod, ac i hwyluso gwelliant pellach, dylai'r Gwasanaeth Cynllunio a'r Tîm Cyfreithiol gydweithio'n agosach i sicrhau bod polisïau cysylltiedig a threfniadau llywodraethu'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn ffordd gydgysylltiedig yn gyfansoddiadol ac yn ymarferol.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion.**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Canlyn arni â'r argymhellion sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn rhannol a heb gael eu rhoi ar waith o'n hadroddiad ar y Gwasanaethau Cynllunio yn 2021 er mwyn mynd i'r afael â hwy yn llawn a'u gwreiddio'n ddiwylliannol yn y Cyngor. |
| A2 | Datblygu a gweithredu cytundeb ffurfiol i adolygu a chymeradwyo'r rhesymau cynllunio perthnasol a ddarperir gan Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol wrth alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i sicrhau bod Aelodau a staff yn cael eu diogelu a bod y Pwyllgor yn canolbwyntio'i amser ar geisiadau mwy strategol bwysig. |
| A3 | Adolygu arferion a gweithdrefnau'r Panel Archwilio Safleoedd i ddiogelu rhag unrhyw ganfyddiad o ragderfynu gan grŵp bach o Aelodau'r Pwyllgor i sicrhau:<br>• bod holl Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu gwahodd i ymweliadau â safleoedd;<br>• bod ymweliadau â safleoedd yn digwydd trwy eithriad, yn cydymffurfio â Phrotocolau Archwilio Safleoedd ac yn cael eu defnyddio'n ddarbodus i sicrhau defnydd effeithlon a chymesur o adnoddau; a<br>• bod ymweliadau â safleoedd yn cael eu hadnabod cyn cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn unol â Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru. |
| A4 | Ailbwrpasu'r ffordd y mae'r Grŵp Callio'n gweithio'n ymarferol fel ei fod yn cynnal ei ddiben bwriadedig fel fforwm dysgu ac addysgol i Aelodau gael rhagor o wybodaeth am bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol i gefnogi prosesau penderfynu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Bydd hyn yn diogelu Aelodau a swyddogion rhag unrhyw ganfyddiad am ragderfynu gan grŵp bach o Aelodau'r Pwyllgor. |

# Atodiad 1

## Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2021

**Arddangosyn 2: asesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2021**

| Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| A1 Dylai'r Cyngor adolygu ei gyfansoddiad i gryfhau'r broses o lywodraethu ei drefniadau rheoli datblygu. Dylai'r adolygiad:<br><br>a) dysgu o drefniadau llywodraethu rheoli datblygu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) eraill; | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.**<br><br>Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi dechrau adolygiad o drefniadau llywodraethu ACLlau eraill. Hyd yma – mae wedi cysylltu â dau ACLl cyfagos ac mae cyfle iddynt ymgysylltu â rhagor yn y dyfodol. Yn dilyn yr adolygiad a'r adroddiad wedi hynny i'r Cyngor ym mis Mawrth 2022 gyda rhestr helaeth o newidiadau, fe benderfynodd y Cyngor gadw'r Panel Archwilio Safle sy'n cynnwys dim ond traean o aelodau'r Pwyllgor ac fe gyflwynodd grŵp callio sy'n cynnwys dim ond 50% o aelodau'r Pwyllgor. Nid yw ACLlau eraill yn defnyddio'r trefniadau hyn oherwydd y tueddiad ar gyfer rhagderfynu a nifer cyfyngedig yr aelodau sy'n cael eu cynnwys. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r Cyngor ddysgu llawer mwy oddi wrth ACLlau eraill yn y dyfodol. |

| Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
| --- | --- |
| b) datblygu Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor, i ddatgan yn glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â Blaenoriaethau Corfforaethol; | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith.**<br><br>Mae'r Cyngor wedi diwygio'i Gylch Gorchwyl i ddatgan yn glir beth yw rôl a diben y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Fodd bynnag, er bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn datgan bod rhaid i'r Pwyllgor 'ystyried ceisiadau a phenderfynu arnynt, er mwyn hybu a chyfrannu at Strategaeth a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor trwy ystyriaeth drylwyr i ddatblygiadau mawr ledled y sir', mae'r Pwyllgor yn ansicr sut i ystyried y mathau hyn o geisiadau, gan bod cwestiynau'r Pwyllgor yn gyfyngedig ac na ofynnir am unrhyw Baneli Archwilio Safleoedd.<br>Yn y dyfodol, gan bod y rhain yn fathau newydd o geisiadau cynllunio i'r Pwyllgor, gall swyddogion roi gwersi, datblygiad a chymorth pellach i Aelodau'r Pwyllgor. Gan bod yr holl ACLlau eraill yng Nghymru'n recordio'u pwyllgorau cynllunio ac yn trefnu bod y recordiadau ar gael i'w gweld ar ôl cyfarfodydd pwyllgorau, mae cyfle i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu arsylwi ar bwyllgorau eraill a dysgu oddi wrthynt o ran sut i ystyried ceisiadau cynllunio mawr mewn modd gweithredol. |
| c) diffinio'r hyn y mae'n ei ystyried yn geisiadau cynllunio strategol bwysig a 'mawr'; | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith.**<br><br>Mae cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys diffiniad o geisiadau cynllunio mawr a strategol bwysig ac mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu bellach yn cael y ceisiadau hyn fel rhan o'r drefn arferol. |

| Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| d) cryfhau cynllun dirprwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu drwy ystyried codi'r trothwy ar gyfer ceisiadau cynllunio a elwir yn Bwyllgor i'w alluogi i ganolbwyntio'n well ar geisiadau mwy strategol bwysig a cheisiadau mawr; | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.**<br><br>Mae cynllun dirprwyo'r Cyngor yn disgrifio amgylchiadau pan ddylai ceisiadau cynllunio gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer penderfyniad. Mae'r Cynllun Dirprwyo'n datgan – 'Penderfynu ar geisiadau cynllunio yn dilyn cais yr Aelod sy'n cynrychioli'r Ward Leol, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Economi ac Adfywio, oherwydd amgylchiadau a diddordeb lleol.'<br>Fe gryfhaodd y Cyngor ei Gynllun Dirprwyo ac fe gadwodd y gallu i Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol alw ceisiadau cynllunio i mewn ond nid yw'r rhesymau dros alw ceisiadau cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wastad yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol ac mae'n aneglur beth mae 'oherwydd amgylchiadau a diddordeb lleol' yn ei olygu yn y Cynllun Dirprwyo cyfredol. Rydym yn gwneud argymhelliad penodol ychwanegol yn yr adroddiad hwn i fynd i'r afael â hyn. |
| e) sicrhau bod ceisiadau cynllunio a gyflwynir gan neu ar ran swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac nid o dan bwerau dirprwyedig swyddogion i ddiogelu rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hyrwyddo annibyniaeth a thryloywder; | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith.**<br><br>Fe wnaeth y Cyngor ddiwygio'i Gyfansoddiad i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, ac mae ei Bwyllgor Rheoli Datblygu bellach yn cael ceisiadau a gyflwynwyd gan swyddogion, ceisiadau ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno a chan Aelodau etholedig. |

| Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| f) adolygu cydbwysedd yr amser y mae'n rhaid i aelodau wardiau lleol siarad ar geisiadau cynllunio mewn cyfarfodydd pwyllgor o'i gymharu ag ymgeiswyr a gwrthwynebwyr; | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith.**<br><br>Mae cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys newidiadau i drefniadau siarad cyhoeddus ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae gan yr holl siaradwyr, gan gynnwys Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol, bum munud i annerch y Pwyllgor. Mae hyn yn ymdrin â'r cydbwysedd o ran yr amser y mae unigolion yn ei gael. Rydym ni wedi sylwi, pan fo Aelodau sy'n cynrychioli Wardiau Lleol yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu, nad ydynt yn cael eu hysbysu ynghylch eu pum munud. Fodd bynnag, anaml y mae Aelodau sy'n cynrychioli Wardiau Lleol yn siarad am yn hwy na hynny. Mae unrhyw ymgeisydd, asiant neu wrthwynebydd sy'n annerch y Pwyllgor yn cael ei hysbysu ynghylch ei bum munud i annerch y Pwyllgor. |
| g) adolygu a chynnwys Cod Ymarfer Cynllunio'r Cyngor yn y cyfansoddiad a sicrhau bod aelodau'n deall ac yn gweithredu yn unol ag ef. | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith.**<br><br>Datblygodd y Cyngor 'weithdrefnau gweithredol' yr ymlynir wrthynt, heblaw am y Paneli Archwilio Safleoedd.<br>Fodd bynnag, fel a nodir yn yr adroddiad hwn, mae gennym bryderon ynghylch gweithrediad y Grŵp Callio a'i arferion gweithio cyfredol. |
| A2 Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei Bwyllgor Rheoli Datblygu a'i drefniadau cymorth pwyllgorau yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data a phrosesu gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith.**<br><br>Ceir gwelliant sylweddol gydag Aelodau'r Pwyllgor yn peidio â thrafod manylion personol ymgeiswyr wrth drafod ceisiadau cynllunio. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw Aelod sy'n cynrychioli Ward Leol yn ymwybodol, pan fo'n annerch y Pwyllgor, o'i gyfrifoldebau i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. |

| Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
| --- | --- |
| A3 Mae angen i aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor sicrhau bod unrhyw benderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol ymgeiswyr. | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.**<br><br>Bu cryn dipyn o gynnydd cadarnhaol mewn perthynas ag ymlynu wrth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a thrafod amgylchiadau personol ymgeiswyr.<br>Mae nifer o benderfyniadau'r Pwyllgor ar fân geisiadau cynllunio a'r rhai a gyflwynir gan ddeiliaid tai'n cael eu gwneud yn dilyn cyfeirio'r cais at Banel Archwilio Safle lle mae grŵp bach o Aelodau'n trafod rhinweddau'r cais ac mae rhai o'r rhain yn ymwneud ag amgylchiadau personol ymgeiswyr, sy'n mynd yn groes i ganllawiau a phrotocolau'r Cyngor ynghylch Paneli Archwilio Safleoedd. |
| A4 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cofnodion o'i gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu 'cyhoeddus' ar gael i'r cyhoedd ar ôl cyfarfodydd pwyllgor i gadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y dyfodol. | **Argymhelliad heb ei roi ar waith.**<br><br>Er bod y Cyngor yn darlledu ei holl bwyllgorau'n fyw, dim ond y darllediadau o'r Cabinet a'r Cyngor sydd ar gael yn electronig wedi hynny. Ceredigion yw'r unig ACLl nad yw'n trefnu bod y darllediadau byw o gyfarfodydd ei Bwyllgor Rheoli Datblygu ar gael yn electronig ar ôl y cyfarfod. |

| Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| A5 Dylai'r Cyngor sicrhau bod penderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu sy'n ymwneud â chartrefi 'fforddiadwy' yng nghefn gwlad agored yn cael eu gwneud a'u hadrodd yn gywir yn unol â chanllawiau atodol Tai Fforddiadwy'r Cyngor. | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith.**<br><br>Fe gwblhaodd y Cyngor adolygiad o'i anheddau fforddiadwy i ganfod: pa un a yw anheddau fforddiadwy sengl mawr yng nghefn gwlad agored yn cael effaith sylweddol ar niferoedd y cartrefi fforddiadwy yr adroddir arnynt wrth Lywodraeth Cymru; a pha un a yw penderfyniadau o'r fath sy'n groes i gyngor swyddogion proffesiynol, mewn perthynas ag anheddau fforddiadwy sengl mawr yng nghefn gwlad agored, yn creu risg y gallai ymgeiswyr ar gyfer anheddau o'r fath benderfynu herio statws 'fforddiadwy' eu heiddo yn gyfreithiol wrth eu gwerthu yn y dyfodol.<br>Fe wnaeth y Cyngor adnabod nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn 'lleoliadau eraill' ers 2015. Adnabu'r Cyngor hefyd ble y mae'r cartrefi fforddiadwy'n cael eu hadeiladu a maint yr anheddau. Daeth adolygiad y Cyngor i'r casgliad bod hyn yn cyfateb i 17% o'r cartrefi fforddiadwy a ganiatawyd. I sicrhau yr adroddir yn fwy cywir ar dai fforddiadwy yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu arwynebeddau a niferoedd ystafelloedd gwely anheddau fforddiadwy ac anheddau TAN6 â chaniatâd Llawn neu Faterion a Gadwyd yn Ôl. Mae'n bwriadu ychwanegu'r wybodaeth hon at ei broses fonitro fewnol a gall yr anheddau hynny sy'n mynd y tu hwnt i'r uchafswm maint gael eu hadnabod a'u diystyru wrth adrodd wrth Lywodraeth Cymru. |
| A6 Dylai'r Cyngor a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu asesu goblygiadau cronnol ac effaith seilwaith hirdymor cymeradwyo anheddau fforddiadwy sengl a cheisiadau cynllunio TAN 6 yng nghefn gwlad agored er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gynaliadwy ac yn gydlynol at flaenoriaethau corfforaethol ehangach y Cyngor. | **Argymhelliad heb ei roi ar waith.**<br><br>Fel a nodwyd mewn ymateb i A5, fe gwblhaodd y Cyngor adolygiad o faint anheddau fforddiadwy a ganiatawyd yng nghefn gwlad agored ac mewn 'lleoliadau eraill'. Fodd bynnag, ni wnaeth yr adolygiad hwn amlygu'r asesiad cronnus o'r effaith ar y seilwaith, er enghraifft darpariaeth iechyd gymunedol, casglu gwastraff, cludiant i ysgolion a lleoedd ac ati, wrth gymeradwyo anheddau yng nghefn gwlad agored neu mewn 'lleoliadau eraill'. |

| Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| Cynllunio Gwasanaethau: Dylai Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor: | |
| A7 Cyflwyno ei wybodaeth a'i thargedau perfformiad yn gliriach yn ei gynlluniau busnes. | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.**<br><br>Mae cynllun busnes Rheoli Datblygu'r Cyngor 2022-23 yn cynnwys hunanasesiad sy'n bwrw golwg ar dri maes allweddol: yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn y mae'r gwasanaeth yn gofidio amdano a'r hyn y mae angen iddo ddigwydd. Mae hyn yn darparu darlun clir o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun busnes yn dangos unrhyw ddata sylfaenol a nifer cyfyngedig o dargedau y mae'n eu dangos i ategu amcanion y gwasanaeth. Felly, nid yw'r cynllun busnes yn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad na thargedau mewn modd eglur. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n sefydlu Safonau Gwasanaeth i ddarparu eglurder ynghylch yr hyn y gall ymgeiswyr/asiantau ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth a rôl ymgeiswyr/asiantau o ran cyfrannu at broses esmwyth ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, dylai'r Safonau Gwasanaeth ddarparu manylion y gwasanaethau a gynigir, y safonau y mae'r gwasanaeth yn ymegnïo i'w cyrraedd, a thargedau perfformiad mesuradwy. Mae'r wybodaeth hon wedi'i bwriadu i fod ar gael yn rhwydd i swyddogion, Aelodau Etholedig, cymunedau lleol, datblygwyr a phartïon eraill â buddiant. Y bwriad yw bod y mesurau perfformiad terfynol a fydd yn rhan o'r Safonau Gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y cynllun busnes. |

| Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| A8 Adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyfuno rolau'r Swyddog Rheoli Datblygu a Gorfodi gan gynnwys yr effaith ar berfformiad. | **Argymhelliad heb ei roi ar waith.**<br><br>Nid yw’r Cyngor wedi cynnal yr adolygiad hwn. Mae’r Cyngor wedi sicrhau gwasanaeth ymgynghorwyr i gynorthwyo gyda lleihau’r ôl-groniad o geisiadau cynllunio ac achosion gorfodi. Er gwaethaf dechrau araf, mae’r ymgynghorwyr yn gwella cyflymder eu proses benderfynu ar gyfer ceisiadau cynllunio ond nid ar gyfer gorfodi.<br>Mae’r Cyngor yn ystyried rôl gorfodi’n gyffredinol, gan gynnwys mewn meysydd gwasanaeth eraill megis gwastraff ac ailgylchu ac iechyd yr amgylchedd. Yn ystod ein gwaith maes, cawsom neges gref bod gorfodaeth gynllunio’n bryder cynyddol yn y sir, y mae angen mynd i’r afael ag ef. |
| Monitro<br>A9 Dylai'r Cyngor sefydlu fframwaith i sicrhau ei hun bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cyfrannu'n gydlynol ac yn gynaliadwy at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. | **Argymhelliad heb ei roi ar waith.**<br><br>Roedd y Gwasanaeth Cynllunio’n bwriadu datblygu ‘Rhestr Wirio Cynaliadwyedd’ ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu i asesu effaith unigol a chronnus prosesau penderfynu. Byddai swyddogion yn cwblhau’r rhestr wirio cyn cyfarfodydd y pwyllgor ac yn cynnwys y rhestr wirio fel rhan o’r pecyn adroddiadau ar gyfer y Pwyllgor. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld tystiolaeth bod y gwasanaeth yn rhoi’r trefniant hwn ar waith. |

| Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021 | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>A10 Wrth wneud unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth cynllunio, dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle i ystyried sut y gallai weithredu'n agosach yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor wrth wneud penderfyniadau cynllunio. | **Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.**<br><br>Fe wnaeth swyddogion gynnwys yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy o fewn yr hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu newydd ym mis Mai 2022. Fodd bynnag, mae dehongliad rhai Aelodau o 'ddatblygu cynaliadwy' yn wahanol i'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn Rhifyn 11 Polisi Cynllunio Cymru. Wedi'i gynnwys yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor mae'r gofyniad bod y Pwyllgor yn 'ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio'. Er mwyn ymlynu wrth ddiben y Pwyllgor, mae hyfforddiant pellach ar gyfer Aelodau'n ofynnol fel bod y Pwyllgor yn deall yn llawn beth mae datblygu cynaliadwy'n ei olygu yng nghyd-destun cynllunio. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.